**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 1915 (Cy.209)

# DIOGELU'R ARFORDIR, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Amrywio'r Dyfroedd a Eithrir) (Afon Teifi) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949 ("y Ddeddf") yn pennu dyfroedd nad ydynt, at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf (diogelu'r arfordir), wedi'u cynnwys yn yr ymadroddion "*sea*" a "*seashore*". Mae'r Rheoliadau hyn yn amrywio Atodlen 4 i'r Ddeddf er mwyn ymestyn y rhan honno o Afon Teifi a gynhwysir yn yr ymadroddion hynny.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 1915 (W.209)

# COAST PROTECTION, WALES

## The Coast Protection (Variation of Excluded Waters) (River Teifi) (Wales) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Schedule 4 to the Coast Protection Act 1949 ("the Act") specifies waters which, for the purposes of Part 1 of the Act (coast protection), are not included in the expressions "sea" and "seashore". These Regulations vary Schedule 4 to the Act so as to extend the part of the River Teifi which is included in those expressions.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 1915 (Cy.209)

# DIOGELU'R ARFORDIR, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Amrywio'r Dyfroedd a Eithrir) (Afon Teifi) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *20 Gorffennaf 2003* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Gweinidog gan baragraff 113 o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949(**a**), ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Amrywio'r Dyfroedd a Eithrir) (Afon Teifi) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Awst 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949**

**2.** Ym mharagraff 83 o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949 (sydd, at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf, yn eithrio dyfroedd penodol sy'n ffurfio rhan o Afon Teifi o'r diffiniad o "*sea*" a "*seashore*"), yn lle "*above the ferry north of St Dogmells*" rhodder y geiriau "*above Priory Bridge at Cardigan*"."

(a) 1949 p.74.

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 1915 (W.209)

# COAST PROTECTION, WALES

## The Coast Protection (Variation of Excluded Waters) (River Teifi) (Wales) Regulations 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *20th July 2003* |
| *Coming into force* | *1st August 2003* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Minister by paragraph 113 of Schedule 4 to the Coast Protection Act 1949(**a**), and now exercisable by the National Assembly for Wales(**b**), hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the Coast Protection (Variation of Excluded Waters) (River Teifi) (Wales) Regulations 2003 and shall come into force on 1st August 2003.

(2) These Regulations apply to Wales.

**Amendment to Schedule 4 of the Coast Protection Act 1949**

**2.** In paragraph 83 of Schedule 4 to the Coast Protection Act 1949 (which, for the purposes of Part 1 of the Act, excludes certain waters forming part of the River Teifi from the definition of "sea" and "seashore"), for "above the ferry north of St Dogmells" substitute "above Priory Bridge at Cardigan".

(a) 1949 c.74.

(b) The functions of the Minister, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by Article 2 of, and Schedule 1 to , the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

20 Gorffennaf 2003

*Carwyn Jones*

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

20th July 2003

Minister for Environment, Planning and Countryside

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 1915 (Cy.209)

# DIOGELU'R ARFORDIR, CYMRU

Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Amrywio'r Dyfroedd a Eithrir) (Afon Teifi) (Cymru) 2003

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 No. 1915 (W.209)

# COAST PROTECTION, WALES

The Coast Protection (Variation of Excluded Waters) (River Teifi) (Wales) Regulations 2003

©Ⓟ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090773-6

9 780110 907734

£1.75

W160/8/03 ON